

# Cyngor Cymuned Llandwrog

## Poilsi Bancio a Talu Ar Lein

### Cefndir

Daeth Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Taliadau gan Gyngorau Plwyf, Cyngorau Cymunedol ac Ymddiriedolwyr Siarter) i rym ar 12fed Mawrth 2014. Mae'r Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol hwn yn diddymu'r gofyniad statudol i 2 aelod etholedig lofnodi sieciau a gorchymynion eraill i'w talu. Mae'r gofyniad cyfreithiol penodol hwn yn galluogi'r Cyngor Cymuned i gymryd agwedd gyffredinol tuag at sut mae'n rheoli ei arian yn ogystal â manteisio ar dechnoleg fodern gan gynnwys bancio rhyngryd.

Mae'r Cyngor Cymuned yn cydnabod yr angen i gynnal rheolaethau cadarn ar daliadau fel rhan integredig o'i system rheoli ariannol gyffredinol ac yn cynnig Polisi Bancio Rhyngryd fel rhan o'i Rheoliadau Ariannol .

### Manylion y Cyfrif Banc

Mae gan y Cyngor Cymuned 2 gyfrif gydag HSBC ers rhai blynnyddoedd bellach:

- Cyfrif Cyfredol gyda chyfleusterau bancio siec a rhyngryd ar gyfer talu o ddydd i ddydd ar gyfer anfonebau a derbyn unrhyw incwm.
- Cyfrif "Deposit" ar gyfer unrhyw gronfeydd wrth gefn.
- Rhaid i sieciau gael eu llofnodi gan y Rheolwr ac unrhyw 2 o 5 aelod sydd wedi ei awdurdodi gan y Cyngor yn ei gyfarfod blynnyddol

### Gweithdrefnau

a. Bydd y Rheolwr Cyllid yn gwirio fod pob archeb am daliad yn gywir

b. Rhaid i'r Rheolwr baratoi amserlen o'r holl daliadau a'i chyflwyno i bob cyfarfod o'r Cyngor ynghyd ag unrhyw anfonebau ategol neu ddogfennaeth arall i'w cymeradwyo. Bydd y Cadeirydd yn arwyddo y scediwl yn y cyfarfod.

c. Lle bynnag y bo modd, gwneir taliadau gan ddefnyddio bancio ar-lein. Mae'r bwledi canlynol yn nodi egwyddorion a gweithdrefnau gweithredu'r cyfrif ar-lein gan roi sylw arbennig i codi ceisiadau am daliad a'u hawdurdodi. Bydd y broses wirioneddol o weithredu taliadau ar-lein y cyfrif yn ddarostyngedig i broses awdurdodi a diogelwch y banc.

- Bydd y Rheolwr yn codi ceisiadau
- Bydd dau Gyngorydd awdurdodedig yn cadarnhau'r taliadau ar-lein (o restr o Gyngorwyr awdurdodedig)
- Pan fydd taliad i'w wneud gyda siec, bydd y siec yn cael ei lofnodi gan y Rheolwr a dau aelod awdurdodedig
- Bydd y Rheolwr yn nodi manylion banc yr holl gyflenwyr ar y scediwl talu gyda copi o'r anfonebau.

Mabwysiadwyd gan y Cyngor dyddiedig \_\_\_\_\_